Cyngor Sir Ynys Môn

Swydd Disgrifiad / Manyleb Person

Teitl Swydd: Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

Rhif y Swydd:

Gwasanaeth / Adain: Prif Weithredwr

Graddfa: LGA 3

Pwrpas Cyffredinol y Swydd

Fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, bydd deiliad y swydd yn cefnogi rhaglenni allweddol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau, moderneiddio a datblygu sefydliadol yn y meysydd gwasanaeth a nodwyd.

Cyflawnir hyn drwy gydweithio effeithiol a rhagweithiol â sefydliadau eraill y Llywodraeth, partneriaid cyhoeddus, preifat a chymunedol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol a fydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod anghenion gwasanaeth yn cael eu diwallu, tra'n diogelu proffil ac enw da'r Ynys.

Cyffredinol: *Cydymffurfio â Pholisi Diogelu Corfforaethol yr awdurdod lleol a'r dyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu y mae'r polisi hwnnw'n ei roi ar bob gweithiwr, gan gydweddu â gwerthoedd craidd yr Awdurdod sy'n cynnwys cefnogi plant, oedolion a all fod mewn perygl a'u teuluoedd er mwyn eu cadw'n ddiogel ac iach.*

Prif Atebolrwydd / Tasgau Allweddol

1. Arweinyddiaeth Gorfforaethol

Arwain ar hyrwyddo hawliau plant a chydlynu trefniadau i wella sgiliau, lles a gwydnwch pobl ifanc.

Darparu arweiniad strategol, arweiniad a chyngor proffesiynol ar faterion strategol a gweithredol, gan ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth sefydliadol.

Gweithio fel aelod o'r UDA i sicrhau fod arweinyddiaeth Gorfforaethol yn effeithiol a bod gwasanaethau cyfreithiol, ariannol ac adnoddau dynol yn cydymffurfio â safonau cyrff rheoleiddio yng Nghymru a'r DU.

Fel aelod o'r UDA, datblygu cynllun rheoli corfforaethol cadarn a chost effeithiol sy'n diwallu anghenion cymunedau a dinasyddion Ynys Môn.

Datblygu strategaeth gadarn sy'n addas i'r diben i fynd i'r afael â pherfformiad addysgol, moderneiddio addysg a digidoli, datblygu'r Gymraeg, datblygu sgiliau pobl ifanc a chydnerthedd cyffredinol.

Arwain ar sefydlu cysylltiadau gwaith cryf gyda darparwyr addysg eraill – y blynyddoedd cynnar, addysg bellach ac addysg uwch, darparwyr hyfforddiant.

Darparu cyfeiriad strategol ar gyfer swyddogaethau Llyfrgell, Oriel ac Archif yr Awdurdod.

Sicrhau fod gwasanaethau gweithredol yn cyd-fynd â'r cynllun corfforaethol ac yn cyfrannu'n effeithiol at y cynllun strategol addysg.

Darparu arweinyddiaeth briodol i dimau rheoli a defnyddio dull strategol er mwyn sicrhau canlyniadau addysgol cadarn.

Fel aelod o'r UDA, cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth Cymunedau Mwy Diogel.

Cynorthwyo i integreiddio swyddogaethau amrywiol o fewn y Cyngor a chyfrannu at gynllunio strategol ar draws ystod o wasanaethau.

Gweithio gyda'r SLT i ddatblygu proses rheoli perfformiad briodol sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â safonau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn cynorthwyo effeithiolrwydd cyffredinol y Cyngor, llywio rhaglenni gwneud penderfyniadau a gwella.

Adolygu, datblygu a gweithredu dulliau o gyflenwi gwasanaeth er mwyn caniatáu i safonau wella.

2. Siapio Lle a Newid Hinsawdd

Fel aelod o'r UDA, cyfrannu at ddatblygiad gweledigaeth siapio lle sy'n gweithio i'r Ynys.

Cefnogi ymdrechion y Cyngor i ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030.

3. Pobl a Newid

Arwain, cymell a mentora uwch reolwyr o fewn y Gwasanaeth i arddangos y gwerthoedd corfforaethol sylfaenol a chyflawni safonau perfformiad ardderchog.

Darparu gweledigaeth strategol er mwyn sicrhau lefelau perfformiad uchel, gosod cyfeiriad clir a meithrin diwylliant o gydweithio a rhagoriaeth.

Mentora a datblygu tîm o Benaethiaid Gwasanaeth sy'n perfformio'n dda yn barhaus gyda dangosyddion perfformiad allweddol sy'n dwyn timau perthnasol i gyfrif o ran cyflawni.

Sicrhau bod staff yn cael eu grymuso a'u dwyn i gyfrif mewn perthynas â chydymffurfiaeth a pha mor gyflym y maent yn sicrhau gwelliant, er mwyn gallu moderneiddio unrhyw beth gofynnol.

Modelu'r ymddygiadau angenrheidiol i gymell staff i wireddu'r weledigaeth sefydliadol ar gyfer Ynys Môn.

Arwain ar faterion heriol a hynod o gymhleth fydd yn gofyn am ddehongliad ystyrlon o bolisi presennol, neu ymestyn polisi presennol, ar draws mwy nag un Gwasanaeth.

Wrth ddelio gyda heriau a sefyllfaoedd hynod o gymhleth, a all fod â chanlyniadau ansicr, creu polisïau newydd a all gael effaith ar y gwasanaeth / sefydliad.

Gyrru'r strategaeth gorfforaethol ar gyfer moderneiddio Addysg a'r rhaglen rheoli newid o fewn y Gwasanaeth.

4. Rheolaeth Wleidyddol a Ddemocrataidd

Sicrhau fod Aelodau Etholedig yn cael mynediad at y cyngor a'r wybodaeth broffesiynol orau a fwyaf diweddar ar bob agwedd o Addysg, sgiliau a gwydnwch disgyblion a chynghori aelodau am y risgiau yn gysylltiedig â phob agwedd o'r gwasanaethau cymdeithasol.

Briffio'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio am achosion proffil uchel a materion eraill sy'n debygol o achosi pryder ymysg y cyhoedd.

Sicrhau bod aelodau etholedig yn wybodus am safonau, perfformiad ysgolion a moderneiddio ysgolion.

5. Ymgysylltu gyda Chydranddeiliaid

Gweithredu fel llysgennad arweiniol ar ran y Cyngor, a chynrychioli a hyrwyddo'r Awdurdod ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, codi proffil yr Ynys a rhannu arfer dda o amrediad o ffynonellau er mwyn dylanwadu ar bolisi cenedlaethol.

Gweithio gyda phartneriaid amrywiol i sicrhau fod sgiliau yn cael eu datblygu yn effeithiol ar bob lefel e.e. cyn-ysgol, ysgol, coleg, prifysgol neu ddarparwyr hyfforddiant.

Gweithio gyda phob asiantaeth, yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, i wella llesiant pobl ifanc a'u gwydnwch personol.

Cyfrifoldeb am integreiddio swyddogaethau neu wasanaethau amrywiol o fewn y Cyngor a sefydliadau neu bartneriaethau cysylltiedig.

Rheoli'r cysylltiad rhwng Aelodau Etholedig a swyddogion er mwyn hyrwyddo a chynnal gwaith partneriaeth hanfodol / sefydlu prosesau Aelod/Swyddog priodol.

6. Cydymffurfiaeth

Gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Plant i sicrhau fod yr holl gyfrifoldebau a disgwyliadau'n cael eu diwallu'n llawn.

Cyfrannu at ddatblygiadau yn y maes Cymunedau Mwy Diogel.

Ymgysylltu'n effeithiol ar draws yr holl swyddogaethau darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod prosesau cadarn ar waith a chydymffurfiaeth lawn i gytuno ar dargedau ariannol a gweithgarwch ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'u cyflawni ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac amlinellu ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Dylid cyflawni'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor, yn enwedig y rhai ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, GDPR, ac iechyd a diogelwch

Cynorthwyo i weithredu'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

7. Gwelliant Parhaus

Fel aelod o'r UDA, gweithio i ddatblygu diwylliant dysgu sy'n annog defnyddio blaengarwch, cyfrifoldeb ar lefel unigol ac ar lefel tîm, perchnogaeth, cyfathrebu agored a chyfrannu'n gadarnhaol i'r sefydliad a'i bartneriaid.

Sicrhau fod atebolrwydd gwybodus yn sylfaen i herio gwasanaethau, bod risgiau a gweithgareddau i'w lliniaru'n cael eu nodi'n gywir a bod trefniadau rheolaeth ariannol cadarn ac effeithiol mewn lle ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaeth er mwyn gwella enw da'r Cyngor.

Prif Ddyletswyddau / Cyfrifoldebau	**Hanfodol (H) Dymunol (D)**
Addysg a Hyfforddiant **Y gofynion addysgol/ proffesiynol neu'r cymwysterau galwedigaethol sylfaenol ar gyfer y swydd:** **1.** Addysg i lefel gradd neu gyfatebol. **2.** Cymhwyster ôl-raddedig neu gymhwyster proffesiynol perthnasol yn y maes Addysg.	 **H** **D**
Gofynion Cymhwysedd Allweddol **Gwybodaeth swydd-gysylltiedig sy'n hanfodol:** **3.** Arbenigedd drwyadl ac amrywiol ynghyd â chryn brofiad ar lefel uwch reolwr mewn sefydliad sector cyhoeddus mawr a chymhleth neu sefydliad tebyg. **4.** Record o lwyddiant o ran datblygu a chyflawni amcanion a chynlluniau corfforaethol. **5.** Dealltwriaeth fanwl o waith y sector cyhoeddus, blaenoriaethau a pholisïau'r llywodraeth. **6.** Arbenigedd o ran arwain rhaglenni newid ar raddfa fawr. **7.** Llwyddiant o ran datblygu cysylltiadau gweithio a phartneriaethau i ddarparu gwasanaethau. **8.** Cryn brofiad o reoli adnoddau (pobl, cyllid, adnoddau ffisegol). **9.** Profiad o reoli prosiectau corfforaethol trawsbynciol.	 **H** **H** **H** **H** **H** **H** **H**
Sgiliau penodol: **10.** Y gallu i arwain yn strategol ac ysbrydoli gweithlu amrywiol. **11.** Sgiliau cyfathrebu sylweddol yn arbennig o ran ysbrydoli, negodi a pherswadio eraill, gan gynnwys sefydliadau partner. **12.** Lefel uchel o allu a sensitifrwydd gwleidyddol. **13.** Y gallu i addasu a bod yn hyblyg o ran sicrhau canlyniadau corfforaethol a gweithredol mewn amgylchedd sy'n newid. **14.** Cryn allu i ddadansoddi gwybodaeth, sefyllfaoedd a materion cymhleth, defnyddio sgiliau lefel uchel o ran datrys problemau a gwneud penderfyniadau a fydd yn cael effaith sylweddol.	 **H** **H** **H** **H** **H**

<u>Cymwyseddau Ymddygiadol</u>	
1. Y Gymuned a Phartneriaethau	**H**
Mae'r clwstwr hwn yn ymwneud â chanlyniadau ar gyfer cymunedau Ynys Môn. Mae'n golygu fod arweinyddion yn edrych y tu hwnt i ffiniau tîm neu'r sefydliad i weithio ar draws Ynys Môn, gan ganolbwyntio ar y dull gorau a mwyaf effeithlon o gwrdd ag anghenion y dinasyddion a'r cymunedau. Bydd yn cefnogi arweinyddion Ynys Môn i sefydlu partneriaethau effeithiol, i ddatblygu cysylltiadau gyda'r gymuned a'i galluogi i wneud dewisiadau effeithiol ac arloesol sy'n canolbwyntio o ddifri ar anghenion lleol.	
2. Yn frwd ynghylch Dinasyddion	**H**
Mae'r ymddygiad hwn yn ymwneud â chanolbwyntio'n barhaus ar ddinasyddion/cwsmeriaid. Mae'n golygu ymgysylltu gyda chwsmeriaid/dinasyddion, eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus a fydd yn helpu i siapio'r gwasanaethau o'u cwmpas.	
3. Partneriaethau	**H**
Mae'r ymddygiad hwn yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol, gan alluogi eraill i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol, waeth beth fo'r ffiniau mewnol neu sefydliadol, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y dinasyddion.	
4. Sicrhau Canlyniadau	**H**
Mae'r clwstwr hwn yn ymwneud â sicrhau canlyniadau mewn modd rhagweithiol ar gyfer Ynys Môn. Bydd arweinyddion sydd â'r cymhelliad hwn yn gosod y cywair ac yn cymryd camau i sicrhau canlyniadau. Rhaid cael yr hyder a'r gallu entrepreneuraidd i herio'r status quo, trawsnewid y modd y mae Ynys Môn yn gwneud pethau a gwella perfformiad yn barhaus. Mae'n cynnwys y gallu i fod yn glir am yr hyn sydd ei angen a'r gwydnwch a'r hyder i herio'n adeiladol oni lwyddir i gyrraedd safonau neu'r gallu i wneud penderfyniadau anodd gydag empathi ac unplygrwydd lle mae angen hynny er mwyn sicrhau gwell canlyniadau'n gyson i'r gymuned. Bydd yn cefnogi arweinwyr Ynys Môn i osod y safon ar gyfer cyflawni gwasanaethau a chodi'r safon yn barhaus gan ddatblygu diwylliant o berfformiad lefel uchel.	
5. Awch Entrepreneuraidd	**H**
Mae'r ymddygiad hwn yn golygu bod â'r ynni, y dyfalbarhad a'r awch i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella a chyflawni hynny.	
6. Dal Pobl yn Atebol	**H**
Mae'r ymddygiad hwn yn ymwneud â sicrhau fod eraill yn gwybod yr hyn a ddisgwylir ohonynt ac yn cymryd y cyfrifoldeb am sicrhau canlyniadau a gweithredu'n unol â gwerthoedd sylfaenol Ynys Môn.	
7. Agwedd Strategol	**H**

Mae'r clwstwr hwn yn golygu bod â'r gallu deallusol, yr hyblygrwydd meddyliol a'r persbectif eang i ddeall a thorri drwy gymhlethdodau cyd-destun Ynys Môn i greu cyfeiriad clir a gyrru blaengarwch. Bydd yn cefnogi arweinwyr Ynys Môn i ddelio gydag amwysedd a siapio a rheoli amgylchedd cymhleth a deinamig yn strategol.	**H**
8. Ymwybyddiaeth o Gyd-destun Mae'r ymddygiad hwn yn ymwneud â deall cyd-destun cymhleth o safbwynt diwylliant, gwleidyddiaeth a chydranddeiliaid a bod â'r gallu i adnabod cyfleoedd a phenderfynu ar sut orau i ddelio gyda hyn.	**H**
9. Meddwl yn Strategol Mae'r ymddygiad hwn yn ymwneud â'r gallu i feddwl yn gysyniadol ac i symleiddio cymhlethdodau er mwyn creu eglurder a darparu cyfeiriad a ffocws i Ynys Môn.	**H**
10. Ysbrydoli eraill Mae'r clwstwr hwn yn ymwneud â chymell, ysbrydoli a chefnogi eraill er mwyn cyflawni gweledigaeth Ynys Môn. Mae'n cydnabod bod angen i arweinwyr yn Ynys Môn rymuso a chyflawni drwy eraill, yn fewnol ac yn allanol. Mae'n cynnwys y gallu i ddeall a rheoli eu hadwaith a'u hynni eu hunain er mwyn datblygu gwydnwch a hygrededd. Bydd o gymorth i ddatblygu ymgysylltiad ac ymrwymiad cydweithwyr ac yn galluogi cydranddeiliaid i sicrhau canlyniadau ar gyfer cymunedau Ynys Môn. Mae'n arbennig o bwysig yn y cyd-destun cyfredol o sicrhau trawsnewid.	**H**
11. Arweinyddiaeth Mae'r ymddygiad hwn yn ymwneud â galluogi eraill i'w galluogi nhw i gwrdd â dyheadau Ynys Môn hyd orau eu gallu drwy ddarparu cyfeiriad, cefnogi hinsawdd o rymuso a gweledigaeth y gallant ymgysylltu â hi.	**H**
12. Adeiladu Cefnogaeth Mae'r ymddygiad hwn yn ymwneud ag ymgysylltu gydag eraill, cyfathrebu mewn modd sy'n cael effaith a dylanwadu'n fedrus i ddatblygu cefnogaeth.	**H**
13. Hunanreoli Mae'r ymddygiad hwn yn ymwneud â deall a rheoli eich hun i reoli'r effaith a gewch yn y tymor hir a'ch gwydnwch yn y tymor hir.	

Safle yn y Sefydliad	
Adrodd i:	**Dirprwy Brif Weithredwr**
Staff a oruchwylir:	**Uwch Reolwr (Sector Uwchradd)** **Uwch Reolwr (Sector Cynradd)** **Uwch Reolwr Lles** **Rheolwr Busnes a Pherfformiad**

Trefniadau ac Amodau Gweithio	
Wythnos waith:	Unrhyw 5 diwrnod allan o 7 Dydd Llun – Dydd Sul
Lleoliad gwaith dynodedig:	Ynys Môn
Oriau cytundebol:	Yn unol â gofynion y swydd, o leiaf 37 awr yr wythnos, gan gynnwys y gallu i weithio gyda'r nos a dros y penwythnos

Gofynion Iaith						
Sgiliau Iaith Gymraeg (gweler y fframwaith sgiliau sydd ynghlwm os gwelwch yn dda)						
Gwrando a Siarad (Ticiwch un)		Lefel 1 ☐	Lefel 2 ☐	Lefel 3 ☐	Lefel 4 ☐	Lefel 5 ☒
Darllen (Ticiwch un)	Lefel 0 ☐	Lefel 1 ☐	Lefel 2 ☐	Lefel 3 ☐	Lefel 4 ☐	Lefel 5 ☒
Siarad (Ticiwch un)		Lefel 1 ☐	Lefel 2 ☐	Lefel 3 ☐	Lefel 4 ☐	Lefel 5 ☒
Ysgrifennu (Ticiwch un)	Lefel 0 ☐	Lefel 1 ☐	Lefel 2 ☐	Lefel 3 ☐	Lefel 4 ☐	Lefel 5 ☒
Sgiliau Iaith Saesneg (gweler y fframwaith sgiliau sydd ynghlwm os gwelwch yn dda)						
Gwrando a Siarad (Ticiwch un)	Lefel 0 ☐	Lefel 1 ☐	Lefel 2 ☐	Lefel 3 ☐	Lefel 4 ☐	Lefel 5 ☒
Darllen (Ticiwch un)	Lefel 0 ☐	Lefel 1 ☐	Lefel 2 ☐	Lefel 3 ☐	Lefel 4 ☐	Lefel 5 ☒
Siarad (Ticiwch un)	Lefel 0 ☐	Lefel 1 ☐	Lefel 2 ☐	Lefel 3 ☐	Lefel 4 ☐	Lefel 5 ☒
Ysgrifennu (Ticiwch un)	Lefel 0 ☐	Lefel 1 ☐	Lefel 2 ☐	Lefel 3 ☐	Lefel 4 ☐	Lefel 5 ☒

Hyblygrwydd

Tynnir eich sylw at y ffaith fod mewn rhai achosion ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n anodd eu diffinio a gallent amrywio o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau a lefel y cyfrifoldebau dan sylw. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol ar i bob gweithiwr dderbyn elfen o hyblygrwydd mewn dyletswyddau a chyfrifoldebau a phan fo angen cyfnewid oddi mewn i'r sefydliad er mwyn cwrdd ag anghenion a gofynion y gwasanaeth. Bydd y fath ofynion yn golygu y bydd arbenigedd penodol deilydd y swydd yn cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio i'r eithaf er budd y cyflogwr a'r gweithiwr fel ei gilydd

Dyddiad paratoi'r ddogfen Disgrifiad Swydd hon: Ebrill 2022